# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 10FED CHWEFROR, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 2 Chwefror 2023)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes (Cadeirydd)

Linda Ann Jones

Elfed Williams

Eryl Jones-Williams (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Kim Jones

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO — 5 - 8

Siop Hwylus, Brook House, Stryd Fawr, Llanberis LL55 4SU

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

**1) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
**2) Diogelwch y Cyhoedd;**
**3) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
**4) Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **10 Chwefror 2023** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - CONVENIENCE STORE, BROOK HOUSE** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Siop Hwylus yn Brook House , Stryd Fawr, Llanberis LL55 4SU gan Apex Choice Retail CYF o 148 Garron Lane, South Ockendon, Romford. Essex . Mae'r ymgeisydd yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer menter busnes newydd ar yr eiddo, sydd ar hyn o bryd yn sefyll yn wag. Bwriedir addasu a gwella'r adeilad er pwrpas bod yn siop hwylus , yn gwerthu amrywiaeth o nwyddau gan gynnwys alcohol.

1.2 Fe nodir oriau arfaethedig safonol ar gyfer gwerthiant alcohol oddi ar yr eiddo o 06:00 y bore tan 23:00 pob diwrnod yr wythnos; er fod bwriad wedi ei nodi fel amser ansafonol i werthu alcohol o'r siop o 06:00 y bore tan 2:00 drannoeth , bob diwrnod o 'r 1af o Ebrill am 6 mis o'r flwyddyn tan y 30 o Fedi.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Fe dderbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

**Oriau Agor / Opening Hours**:

| | |
|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Llun/Monday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 06:00 - 23:00 |

**Amseroedd ansafonol –** O'R 1 EBRILL HYD Y 30 O FEDI BOB BLWYDDYN BWRIEDIR AGOR TAN 02:00 YN DDYDDIOL HEFYD TAN 02:00 Y BORE GWYLIAU BANC A NOSON GALAN.
**Non standard timings** - FROM 1 APRIL TO 30 SEPTEMBER EACH YEAR THE PROPOSED FINSHING TIME IS 02:00 HOURS DAILY AND UNTIL 02:00 HOURS ON BANK HOLIDAYS AND NEW YEARS EVE

**Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:**

**Lluniaeth yn Hwyr y Nos/Late Night Refreshments:Dan do :: Indoors**

Darparieth (Diodydd Poeth) o dan do i gwsmeriad fynd a allan.

Provision (Hot Drinks) Takes place indoors for customers to take away.
DARPARIAETH BWYD POETH OND YN DIGWYDD RHWNG 1AF O EBRILL A 30 O FEDI BOB BLWYDDYN TAN 02:00YB HEFYD TAN 02:00 Y BORE GWYLIAU BANC A NOSON GALAN.
LATE NIGHT REFRESHMENT SHALL ONLY BE PROVIDED BETWEEN 1 APRIL AND 30 SEPTEMBER EACH YEAR - UNTIL 0200 HOURS AND UNTIL 02:00 HOURS ON BANK HOLIDAYS AND NEW YEARS EVE

**Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Oddi ar yr Eiddo :: Off the Premises**

| | |
|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Llun/Monday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 06:00 - 23:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 06:00 - 23:00 |

**Non standard timings.**

FROM 1 APRIL TO 30 SEPTEMBER EACH YEAR THE PROPOSED FINISHING TIME FOR SALE OF ALCOHOL IS 02:00 HOURS DAILY - AND UNTIL 02:00 HOURS ON BANK HOLIDAYS AND NEW YEARS EVE

**Amseroedd ansafonol.**
O'R 1af O EBRILL A 30 O FEDI BOB BLWYDDYN ORIAU TERFYNOL GWERTHU ALCOHOL ARFAETHEDIG YN CAEL EU HYMESTUN I 02:00 YN DDYDDIOL
; AC HEFYD TAN 02:00 Y BORE GWYLIAU BANC A NOSON GALAN.

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- System TCC safonol gyda chamerâu yn dangos tu mewn a'r ardal yn union tu allan. ; gyda delweddau yn cael eu cadw am 28 diwrnod a'u darparu i'r Heddlu ar gais ysgrifenedig rhesymol
- Fe fydd offer y system TCC yn cael ei gadw mewn man diogel o dan reolaeth deilydd y drwydded (Apex Choice Retail LTD.) ac un person arall
- Hyfforddiant i staff ar werthu alcohol ac ar faterion fel atal gwerthiant o dan oed ac amodau'r drwydded; a staff y siop yn monitro yr ardal yn union tu allan er mwyn sicrhau nad oes unigolion yn ymgynnull ac yn creu niwsans
- Cedwir gwirodydd o dan y cownter
- Cedwir cofrestr o ddigwyddiadau trosedd ac anrhefn
- Fe fydd polisi gwrthod gwerthiant alcohol yn cael ei weithredu i sicrhau nad yw alcohol yn cael ei werthu i bobl sy'n yfed ar y stryd, neu yn feddw neu yn prynu ar gyfer unigolion o dan oedran.
- Fe fydd deilydd y drwydded (Apex Choice Retail LTD.) yn cydymffurfio hefo unrhyw ofynion statudol er mwyn sicrhau diogelwch cwsmeriaid a staff
- Fe fydd rhybudd i adael yn ddistaw yn cael ei arddangos , ac derbyn nwyddau yn cael ei drefnu ar adegau na fydd yn creu niwsans
- Fe fydd y siop yn gweithredu Polisi Her 25

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn yr atodlen weithredol sydd wedi ei chyflwyno ar wahân i'r prif gais ( gweler atodiad)

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelod lleol | E-bost - gwrthwynebu |
| Cyngor Cymuned | E-bost a llythyr yn gwrthwynebu |
| Heddlu Gogledd Cymru | sylwadau |
| Gwasanaeth Tân ac achub | sylwadau |
| Aelod o'r cyhoedd | E bost - gwrthwynebu |

**3.1 Sylwadau'r aelod lleol**

3.2 Fe dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan yr aelod lleol ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch cyhoeddus
- Niwsans cyhoeddus
- Diogelu plant rhag niwed

3.3 Yn benodol , mae pryderon parthed problemau ymddygiad gwrth - gymdeithasol plant a phobl ifanc yn y pentref – gyda pryder fod siop gwerthu alcohol hwyr yn mynd i fod yn atyniad i ymddygiad negyddol gan fod pob eiddo trwyddedig arall wedi cau am oriau man y bore

3.4 Pryderwyd y byddai pobl yn achosi sŵn wrth ymgasglu i yfed tu allan i'r siop

3.5 Datganwyd pryder fod pobl fregus iawn o ran problemau dibyniaeth alcohol wedi eu lleoli yn agos iawn i'r eiddo mewn gwesty oedd yn cael ei ddefnyddio fel preswylfan i bobl digartref. Fe fyddai y gallu i prynu alcohol am 20 awr pob dydd am 6 mis trwy'r Haf yn cael effaith negyddol iawn ar yr unigolion hyn.

3.6 **Sylwadau'r Cyngor Cymuned**

3.7 Fe dderbyniwyd gwrthwynebiad ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch cyhoeddus
- Niwsans cyhoeddus

3.8 Datganwyd pryder ynglŷn a'r oriau safonol hwyr ac fod alcohol ar werth o 6 yn y bore tan 23:00 yr hwyr fel oriau safonol. Datganwyd fod aelodau'r Cyngor fwy pryderus fyth am yr ychwanegiad o dair awr o oriau ansafonol .

3.9 Pryderwyd y byddai yr oriau hwyr yn annog pobl i ymgasglu ac y byddai cynnydd mewn digwyddiadau anghymdeithasol

3.10 Nodwyd fod pobl fregus iawn wedi eu lleoli yn y gwesty digartref – llawer iawn ohonynt wedi cael problemau gydag alcohol a chyffuriau

3.11 Mae'r siop yn agos iawn i breswylfannau parhaol ac mae pryder y bydd pobl yn ymgasglu o dan feranda'r siop ac yn achosi niwsans

3.12 **Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru**

3.13 Nid oes gan yr Heddlu unrhyw sail tystiolaeth i wrthwynebu y cais ond fe gwestiynir cyflwyno oriau estynedig sylweddol ar gyfer gwerthu alcohol am hanner y flwyddyn fel amseroedd ansafonol ar y cais.

3.14 **Sylwadau'r Gwasanaeth Tan**

3.15 Fe nodwyd mewn gohebiaeth at Asiant yr ymgeisydd nad oedd wedi bod yn bosib asesu cydymffurfiaeth gyda darpariaethau gofynion diogelwch tan gan nad oedd yn glir pwy oedd yn gyfrifol am wneud yr Asesiadau Risg Diogelwch Tan, ayyb yn enwedig o ystyried fod annedd uwch ben y siop. Nodwyd nad oedd yn bosib rhoi sylwadau cynhwysfawr oherwydd diffyg gwybodaeth.

3.16 **Sylwadau aelod o'r cyhoedd**

3.17 Gwrthwynebwyd y cais gan unigolyn sy'n byw gyfagos ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch cyhoeddus
- Niwsans cyhoeddus

3.18 Mynegwyd pryder fod achosion diweddar o ymddygiad gwrth gymdeithasol yn yr ardal benodol yma yn debygol o gynyddu gyda pobl yn ymgynnull tu allan i'r siop yn hwyr/ Pryderwyd fod agor o 6 y bore tan 2 fore drannoeth yn mynd i gael effaith andwyol ar drigolion bregus sy'n aros yn y gwesty ar gyfer bobl digartref gerllaw.

3.19 Nodwyd hefyd, fel rhai o ymatebwyr eraill; fod pryder dros ddiffyg lle parcio

## 4 ARGYMHELLIAD

**Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn fod asiant yr ymgeisydd angen cynnig eglurdeb i'r Is Bwyllgor Trwyddedu cyn y gall ddod i benderfyniad os yw'r drwydded, petai yn cael ei chaniatáu, yn mynd i arwain at danseilio'r amcanion trwyddedu – yn benodol dylid roi ystyriaeth ofalus i -**

- **Y mesurau a gynigir yn yr atodlen weithredol – maent wedi eu cynllunio ar gyfer sicrhau nad oes ardrawiad negyddol o ystyried yr oriau gweithgareddau trwyddedig SAFONNOL yn y cais. Mae'r oriau ansafonol a ofynnir amdanynt mewn gwirionedd yn caniatáu alcohol i gael ei werthu am 20 awr bob dydd am 6 mis o'r flwyddyn; ac mae angen sicrhau nad yw'r oriau ychwanegol hyn yn cynyddu'r risg o danseilio'r amcanion trwyddedu**
- **Mae'r atodlen weithredol yn cynnig fod deilydd y drwydded yn gyfrifol am lawer o amodau 'r drwydded a mesurau rheoli. Cwmni cyfyngedig yw deilydd y drwydded , ac nid yw yn glir pwy sydd gyda'r cyfrifoldeb o sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r amcanion trwyddedu ac amodau'r drwydded. Fe ddylid derbyn eglurdeb ynglŷn â'r rôl reolaethol fydd gan y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig - o ystyried y bydd yr eiddo yn gwerthu alcohol am 20 awr bob dydd trwy'r Haf.**
- **Sylwadau'r ymatebwyr**
- **Gofynion y Deddf Drwyddedu 2003 ac unrhyw bolisïau perthnasol**

.